PLEIDLAIS YMGYNGHOROL

Pleidleisiwch IE i sgrapio'r cap – nawr!

Mae PAWB yn haeddu codiad cyflog

pcs

Pleidleisiwch IE dros weithredu diwydiannol

Mae'r cap saith mlynedd ar gyflogau wedi effeithio ar **holl** weithwyr y sector cyhoeddus. Mae **holl** weithwyr y sector cyhoeddus yn gwneud cyfraniad pwysig, ac mae **holl** weithwyr y sector cyhoeddus yn haeddu codiad cyflog.

Mae'n bryd dweud digon yw digon. Mae ein cap ar gyflogau wedi para'n rhy hir o lawer ac mae angen i ni i gyd fod yn gadarn a dangos i'r llywodraeth fod PAWB yn haeddu codiad cyflog.

Mae PCS yn ymgynghori â chi yn y bleidlais hon fel rhan o'n hymgyrch i roi'r gorau i'r cap ar gyflogau, a sicrhau codiadau cyflog i'n haelodau sy'n uwch na chwyddiant.

Pleidleisiwch IE os ydych chi'n cytuno y dylid sgrapio'r cap ar gyflogau, ac y dylid gwneud yn siŵr bod arian ar gael i ddarparu codiadau cyflog sy'n uwch na chwyddiant.

Mae'r bleidlais yn gofyn i chi hefyd, os na fydd ein gofynion yn cael eu bodloni, a ydych chi'n barod i gymryd rhan mewn gweithredu diwydiannol. Os bydd aelodau'n pleidleisio dros weithredu diwydiannol, mae'n bosib y byddwn ni'n trefnu pleidlais statudol.

Bydd pleidlais IE gadarn yn dangos i'r llywodraeth bod yn rhaid iddi ddefnyddio cyllideb yr hydref i sgrapio'r cap ar gyflogau yn y sector cyhoeddus ac ariannu codiadau cyflog i bawb sy'n uwch na chwyddiant.

Pleidleisiwch IE – gyda'n gilydd byddwn yn sgrapio'r cap ar gyflogau – oherwydd mae PAWB yn haeddu codiad cyflog.

Mae PAWB yn haeddu codiad cyflog

pcs